# Crynodeb Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangywer Tachwedd 2024

| Dyddiad | Datgan Buddiant | Presennol | Penderfyniadau a gytunwyd arnynt |
|---|---|---|---|
| 13/1/25 | Dim | D Clwyd Davies (Cadeirydd), Gwyn Roberts (is-Gadeirydd), Emyr Jones, Tyly Roberts, Geraint Roberts, W D Williams, Cynghorydd Alan Jones Evans<br>Lis Puw (Clerc)<br><br>**Ymddiheuriadau:** Eleri Jones | **Materion ariannol blynyddol**<br><br>i. Adolygwyd a mabwysiadwyd Rheoliadau Ariannol diwygiedig (yn seiliedig ar fodel Un Llais Cymru)<br>ii. Ystyriwyd Asesiad o Risgiau Ariannol y Cyngor. Nodwyd yr angen<br>iii. Ystyriwyd y Polisi Yswiriant a chytunwyd fod y Cyngor yn fodlon gyda'r hyn mae cwmni Zurich yn ei gynnig.<br>iv. Archwiliad 2023-24: Mewnol ac Allanol. Derbyniwyd Adroddiad boddhaol iawn gan yr Archwilwyr Mewnol. Nid yw'r Adroddiad allanol wedi cyrraedd eto.<br>v. Penodi Archwilydd Mewnol 2025-26: Cytunwyd i ofyn i Archwilwyr Cyngor Gwynedd wneud y gwaith.<br>vi. Adolygwyd Cyflogau: dywedodd y Clerc ei bod yn fodlon gyda'r cyflog fel y mae. Mae'r cyflog yn cael ei dalu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a'r cyfraniad at gynnal swyddfa ym mis Rhagfyr.<br>vii. Derbyniwyd gwybodaeth lawn am y sefyllfa ariannol bresennol a'r hyn a ddisgwylir erbyn diwedd Mawrth 2025. Nodwyd y gwariant a fu ar greu llwybr ar hyd y darn uchaf o'r fynwent yn ystod y flwyddyn.<br>viii. Lluniwyd Cyllideb y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2025-26.<br>ix. Ystyriwyd lefel y Praesept 2025-26 a chytunwyd ar y ffigwr o £5,000. Bydd hyn yn golygu cynnydd o £1.73 yn y dreth ar gyfer cartref Band D. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **Cynllunio** – Ystyried cais NP5/70/6H (Maesafallen). Nodwyd pryderon trigolion am nifer y cerbydau trwm trwy bentref Rhosygwaliau ac ar hyd y ffordd gul. Nodwyd fod rhan o'r ffordd eisoes wedi dangos gwendid; nodwyd pryderon am y bont (Gradd II*).<br>**Cytunwyd** i holi swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri am eglurhad ar gais NP5/70/50G (Canolfan Awyr Agored Rhosygwaliau)<br><br>**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 10/3/25 |